



Llywodraeth Cymru  
Welsh Government

## Cylchlythyr 008/2018

Gofynion cynllunio mewn perthynas â defnyddio systemau carthffosiaeth preifat mewn datblygiadau newydd, gan gynnwys tanciau carhion a gweithfeydd bach trin carhion

Gorffennaf 2018

# **Gofynion cynllunio mewn perthynas â defnyddio systemau carthffosiaeth preifat mewn datblygiadau newydd, gan gynnwys tanciau carthion a gweithfeydd bach trin carthion**

- Cynulleidfa** Awdurdodau cynllunio; busnesau; asiantaethau'r llywodraeth; grwpiau eraill yn y sector cyhoeddus; cyrff proffesiynol a grwpiau buddiant; grwpiau gwirfoddol a'r cyhoedd.
- Trosolwg** Mae'r cylchlythyr hwn yn diweddarau'r wybodaeth a'r canllawiau i'w defnyddio gan awdurdodau cynllunio wrth ystyried cynigion datblygu newydd mewn ardaloedd lle nad oes system garthffosiaeth gyhoeddus.
- Camau i'w cymryd** Mae angen i awdurdodau cynllunio fod yn ymwybodol o'r gofynion hyn o 3 Gorffennaf 2018 ymlaen:
1. Mae Cylchlythyr Llywodraeth Cymru WGC 008/2018, sy'n rhoi gwybodaeth a chanllawiau ar ddefnyddio systemau carthffosiaeth preifat mewn datblygiadau newydd, yn dod i rym;
  2. Mae Cylchlythyr y Swyddfa Gymreig 10/99 (Gofynion cynllunio mewn perthynas â defnyddio trefniadau carthffosiaeth heblaw'r prif rwydwaith a chynnwys tanciau carthion mewn datblygiadau newydd) (Saesneg yn unig) yn cael ei ganslo.
- Rhagor o wybodaeth** Y Gyfarwyddiaeth Gynllunio  
Llywodraeth Cymru  
Parc Cathays  
Caerdydd, CF10 3NQ  
Ffôn: •0300 0604400  
E-bost: [planning.directorate@llyw.cymru](mailto:planning.directorate@llyw.cymru)
- Copiâu ychwanegol** Mae'r canllawiau hyn ar gael ar wefan Llywodraeth Cymru: <https://gov.wales/topics/planning/policy/circulars/?lang=cy>

**Dogfennau cysylltiedig** Polisi Cynllunio Cymru.  
Cylchlythyr Llywodraeth Cymru 016/2014: Defnyddio  
Amodau Cynllunio i Reoli Datblygu (Saesneg yn unig).  
Building Regulations Approved Document H – Drainage  
and waste disposal.  
GPP 4: Treatment and disposal of wastewater where  
there is no connection to the public foul sewer.  
British Water Codes of Practice for small wastewater  
treatment systems.

# Gofynion cynllunio mewn perthynas â defnyddio systemau carthffosiaeth preifat mewn datblygiadau newydd, gan gynnwys tanciau carthion a gweithfeydd bach trin carthion

## 1.0 Cyflwyniad

- 1.1 Nid oes system garthffosiaeth gyhoeddus ar gael ar gyfer llawer o ddatblygiadau mewn ardaloedd gwledig. Er mwyn diogelu iechyd y cyhoedd, amwynder a'r amgylchedd lleol, mae'n hanfodol bod darpariaeth effeithiol a chynaliadwy mewn datblygiadau o'r fath i reoli carthffosiaeth. Mae systemau carthffosiaeth annigonol nad ydynt yn gysylltiedig â'r prif rwydwaith yn achosi problemau, a rhaid sicrhau nad yw'r problemau hynny'n parhau mewn datblygiadau yn y dyfodol. Achosir y problemau hynny gan garthion 'domestig', sef yr hyn sy'n dod o dai bach, a dŵr sydd wedi cael ei ddefnyddio i goginio a golchi.
- 1.2 Mae'r Cylchlythyr hwn yn disodli Cylchlythyr y Swyddfa Gymreig 10/99, ac mae'n diweddarau cyfeiriadau at ddeddfwriaeth a chanllawiau eraill. Mae'n rhoi cyngor ar arfer rheolaeth gynllunio ar systemau carthffosiaeth nad ydynt yn gysylltiedig â'r prif rwydwaith ac ar yr agweddau ar ddatblygiadau newydd sy'n gysylltiedig â gwaredu carthion, a hynny er mwyn osgoi problemau o ran iechyd y cyhoedd, amwynder neu'r amgylchedd. Gall problemau o'r fath fod yn ganlyniad i ddefnydd amhriodol o systemau carthffosiaeth nad ydynt yn gysylltiedig â'r prif rwydwaith, yn enwedig y rheini sy'n cynnwys tanciau carthion a charthbyllau. Os bwriedir defnyddio systemau carthffosiaeth o'r fath, mae eu haddasrwydd yn debygol o fod yn ystyriaeth berthnasol wrth wneud penderfyniadau cynllunio. Dylai awdurdodau cynllunio anelu at fodloni eu hunain bod y systemau carthffosiaeth a gynigir ar gyfer datblygiad yn addas, ac nad yw problemau o ran iechyd y cyhoedd, amwynder a'r amgylchedd, a allai gyfiawnhau gwrthod rhoi caniatâd cynllunio, yn debygol o godi. Wrth wneud hynny, dylent ystyried:
- unrhyw wybodaeth a ddarperir gan y datblygwr;
  - sylwadau Cyfoeth Naturiol Cymru;
  - gwybodaeth berthnasol arall, gan gynnwys sylwadau eu cynghorwyr proffesiynol eu hunain.

Dylai datblygwyr fynd ati yn ystod cam dylunio'r prosiect i gynnal asesiad llawn i weld a yw'n briodol defnyddio systemau carthffosiaeth nad ydynt yn gysylltiedig â'r prif rwydwaith. Mae'r ffactorau y dylid eu hystyried wrth gynnal asesiad o'r fath i'w gweld yn Adran 2.0. Mae'r Cylchlythyr hwn yn ategu polisi a chyngor sydd i'w gweld eisoes yn:

- a) Polisi Cynllunio Cymru
- b) Cylchlythyr Llywodraeth Cymru 016/2014: Defnyddio amodau cynllunio i reoli datblygu (Saesneg yn unig)
- c) Building Regulations Approved Document H – Drainage and waste disposal
- d) Guidance for Pollution Prevention (GPP) 4: Treatment and disposal of wastewater where there is no connection to the public foul sewer<sup>1</sup> sydd ar gael oddi wrth Cyfoeth Naturiol Cymru
- e) British Water Codes of Practice for small wastewater treatment systems<sup>2</sup>

1.3 Fel arfer, ni ddylid defnyddio'r system gynllunio i gyflawni amcanion y byddai modd eu cyflawni drwy ddeddfwriaeth arall megis y Rheoliadau Trwyddedu Amgylcheddol<sup>3</sup>. Fodd bynnag, mae'r posibilrwydd o lygredd yn ystyriaeth berthnasol y mae'n rhaid eu hystyried. Hyd yn oed pan fo angen caniatâd o dan ddeddfwriaeth arall, mae'n bosibl y bydd gan y system gynllunio ran bwysig i'w chwarae, er enghraifft wrth benderfynu a yw'r datblygiad yn briodol ar gyfer y lleoliad dan sylw.

1.4 Os bwriedir gollwng mwy na 5 metr ciwbig y dydd o elifion carthion sydd wedi'u trin i ddŵr wyneb, a mwy na 2 fetr ciwbig y dydd i ddŵr daear, mae'n rhaid cael trwydded oddi wrth Cyfoeth Naturiol Cymru. Er mwyn gollwng llai na hynny, bydd gofyn cael trwydded (o dan rai amgylchiadau) neu gofrestru bod y gollyngiadau hynny'n rhai sy'n cael eu hesemptio rhag yr angen am drwydded. Mae'n ofynnol o dan y telerau sy'n gysylltiedig â chofrestru i'r system gael ei gosod a'i chynnal a'i chadw'n briodol. Mae manylion llawn i'w gweld ar wefan Cyfoeth Naturiol Cymru: [www.cyfoethnaturiol.cymru](http://www.cyfoethnaturiol.cymru)

## **2.0 Asesu ceisiadau am ganiatâd cynllunio ar gyfer cynigion datblygu sy'n cynnwys systemau carthffosiaeth preifat**

### **Cynllunio Datblygiadau Newydd**

2.1 Cyfrifoldeb y datblygwr yw dangos bod y system garthffosiaeth ar gyfer datblygiadau newydd yn effeithiol. Cyn i awdurdod cynllunio benderfynu ar gais cynllunio, mae angen iddo fodloni ei hun bod y trefniadau carthffosiaeth yn addas. Ar ôl asesu'r cynigion ar gyfer systemau carthffosiaeth nad ydynt yn gysylltiedig â'r prif rwydwaith a'r cynigion ar gyfer cael gwared ar garthion, os gwelir eu bod yn anfodhaol, byddai hynny'n ddigon, fel arfer, i gyfiawnhau gwrthod rhoi caniatâd cynllunio.

<sup>1</sup> <http://www.netregs.org.uk/media/1471/gpp4-20171114-online-v2.pdf>

<sup>2</sup> <http://www.britishwater.co.uk/Publications/codes-of-practise.aspx>

<sup>3</sup> Rheoliadau Trwyddedu Amgylcheddol (Cymru a Lloegr) 2016 (OS 2016/1154)

## Cyrff Ymgynghori

2.2 Wrth i'r awdurdod cynllunio perthnasol asesu a yw'r trefniadau ar gyfer carthffosiaeth a chael gwared ar garthion yn dderbyniol, bydd angen iddo ystyried safbwyntiau cyrff a phartïon â diddordeb a hefyd unrhyw wybodaeth a ddarperir ganddynt. Yn ogystal â safbwyntiau adrannau perthnasol sy'n rhan o'r awdurdod lleol, megis Adran Iechyd yr Amgylchedd a'r Adran Rheoli Adeiladu, gallai safbwyntiau'r cyrff allweddol eraill a restrir isod hefyd fod yn berthnasol er mwyn asesu a yw'r cynigion ar gyfer systemau carthffosiaeth a chael gwared ar garthion yn addas.

- Cyfoeth Naturiol Cymru\*
- Ymgymwr/wyr Dŵr a Charthffosiaeth yr ardal \*
- Awdurdodau cynllunio cyfagos os yw'r datblygiad arfaethedig am y ffin â nhw.
- Unrhyw gorff neu berson arall sydd, yn nhyb yr awdurdod cynllunio, yn darparu unrhyw wybodaeth adeiladol a pherthnasol.

\* yn dangos y gallai'r cyrff hyn fod yn ymgynghoreion statudol o dan Erthyglau 14 a 15 o Orchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Gweithdrefn Rheoli Datblygu) (Cymru) 2012.

## Asesu Systemau Carthffosiaeth Preifat

2.3 Wrth fynd ati i lunio systemau carthffosiaeth arfaethedig ar gyfer unrhyw ddatblygiad, rhaid mai'r rhagdybiaeth gyntaf bob amser yw darparu system sy'n draenio dŵr brwnt i garthffos gyhoeddus. Dylid ymgynghori ag Ymgymwr Carthffosiaeth yr ardal wrth lunio'r cynigion.

2.4 Ar ôl ystyried y gost a/neu'r ymarferoldeb, os gellir dangos er bodd yr awdurdod cynllunio nad yw'n ymarferol cysylltu â charthffos gyhoeddus, dylid ystyried gosod cyfleusterau parod i drin carthion. Dylai'r cyfleusterau hynny drin y carthion yn llwyr a dylai'r elifiant sy'n cael ei ollwng ohono yn y pen draw fodloni'r safonau a'r amodau a bennir gan Cyfoeth Naturiol Cymru. Dylid hefyd nodi'n glir yn y cynnig i osod cyfleusterau parod pwy fydd yn gyfrifol amdanynt a sut y bwriedir eu gweithredu a'u cynnal a'u cadw er mwyn sicrhau bod amodau'r drwydded gollwng neu'r esemptiad perthnasol yn cael eu bodloni gydol oes y cyfleusterau hynny. Gellir cyflawni hynny drwy drefnu bod y cyfleusterau trin carthion, gan gynnwys, os bydd angen, unrhyw garthffosydd cysylltiedig, yn cael eu mabwysiadu gan yr ymgymwr carthffosiaeth o dan adran 104 o Ddeddf y Diwydiant Dŵr 1991. Nid yw'n debygol o fod yn briodol i gyfleusterau ar raddfa fach ac ar gyfer anheddau unigol gael eu mabwysiadu gan yr ymgymwr carthffosiaeth.

- 2.5 Dim ond os gall y datblygwr ddangos yn glir nad yw'r systemau carthffosiaeth a'r ffyrdd o waredu carthion y cyfeirir ym mharagraffau 2.3 a 2.4 yn ymarferol, ar ôl ystyried y gost a/neu'r ymarferoldeb, y dylid ystyried system sy'n cynnwys tanc(iau) carthion. Wrth gyflwyno ceisiadau am ganiatâd cynllunio, dylid hefyd ddarparu asesiad llawn o'r defnydd y bwriedir ei wneud o'r tanciau carthion, er mwyn cadarnhau na welir yr effeithiau andwyol y cyfeirir atynt ym mharagraff 2.6. Dylai'r asesiad hwnnw ganolbwyntio ar yr effeithiau tebygol ar yr amgylchedd, amwynder ac iechyd y cyhoedd a dylai, yn benodol, gynnwys archwiliad trylwyr o effaith gwaredu'r elifiant terfynol drwy adael iddo dreiddio i'r ddaear. Sylwer na chaniateir gollwng elifiant o danciau carthion i ddyfroedd wyneb.
- 2.6 Wrth asesu cynigion draenio preifat, dylid rhoi ystyriaeth lawn a manwl i'r ffactorau isod:
- a) **Gweithredu'n groes i arferion cydnabyddedig:** Unrhyw dystiolaeth sy'n dangos bod y trefniadau arfaethedig yn debygol o leihau effaith unrhyw statud, Rheoliad, Cyfarwyddeb, Cod Ymarfer, Is-ddeddf, amcan yn ymwneud ag ansawdd dŵr, neu unrhyw safon awdurdodol arall (megis Safonau Prydeinig, datganiadau sefyllfa am warchod dŵr daear, papurau/adroddiadau ymchwil â chasgliadau wedi'u profi), neu eu bod yn debygol o fynd yn groes iddynt neu'n debygol o'u torri.
  - b) **Effaith andwyol ar ffynonellau/adnoddau dŵr:** Unrhyw wybodaeth a gynhyrchir gan Arolwg Daearegol Prydain, Cyfoeth Naturiol Cymru (gan gynnwys y cyrff a'i rhagflaenodd) neu unrhyw ffynonellau eraill, sy'n dangos bod ffurfiadau daearegol yn yr ardal a allai ganiatáu i elifiant carthion o'r system draenio dŵr brwnt arfaethedig gael ei drosglwyddo, yn uniongyrchol neu'n uniongyrchol, drwy drylifo neu drwy lif dŵr wyneb, fel ei fod yn cael effaith andwyol ar unrhyw ffynonellau dŵr wyneb neu ddŵr daear sy'n bodoli eisoes neu a allai fodoli yn y dyfodol.
  - c) **Perygl i iechyd neu niwsans:** Unrhyw dystiolaeth sy'n dangos bod y trefniadau arfaethedig a'r system gysylltiedig i waredu elifiant yn debygol o arwain at risg i iechyd y cyhoedd neu o achosi niwsans.
  - d) **Niwed i ddyfroedd a reolir:** Unrhyw dystiolaeth, gan gynnwys cyfeiriadau at wybodaeth am hydroleg a daeareg y safle ac at y Rheoliadau Trwyddedu Amgylcheddol, sy'n dangos y gallai'r trefniadau arfaethedig arwain at sefyllfa lle bydd unrhyw ddeunydd gwenwynig, deunydd niweidiol neu ddeunydd llygru, neu unrhyw wastraff solet, yn mynd i mewn i ddyfroedd a reolir, gan gynnwys dyfroedd daear.

e) **Niwed i'r amgylchedd ac amwynder:** Unrhyw dystiolaeth bod y trefniadau arfaethedig yn debygol o arwain at sefyllfa lle bydd carthion sydd heb eu trin o gwbl neu nad ydynt ond wedi cael eu trin yn rhannol yn mynd i mewn i ddyfroedd derbyn neu'n mynd ar dir i raddau sy'n niweidio neu'n tanseilio'r amgylchedd a gwerth amwynder yr ardal leol neu unrhyw ardal arall, yn enwedig os oes arwyddocâd arbennig iddo fel Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig (SDdGA), Ardal Cadwraeth Arbennig (ACA) neu fan agored cyhoeddus.

f) **Gorlwytho capasiti presennol yr ardal:** Unrhyw asesiad awdurdodol neu gofnodion sydd ar gael sy'n dangos

- i) y bydd gollyngiadau newydd o ddatblygiad arfaethedig yn ychwanegu at y rheini sy'n bodoli eisoes yn yr ardal, neu
- ii) y bydd ansawdd neu faint y gollyngiadau hynny

yn debygol o orlwytho capasiti'r isbridd i'w hamsugno neu o orlwytho capasiti'r dyfroedd derbyn i'r graddau y gallai hynny arwain at broblemau o ran pyllau, llifogydd carthion, llygredd neu niwsans.

g) **Diffyg gollyngfeydd addas:** Unrhyw dystiolaeth sy'n dangos nad oes unrhyw gyfleuster addas megis cyrsiau dŵr boddhaol (ar gyfer cyfleusterau parod i drin carthion) na digon o dir yn yr ardal leol i amsugno a chael gwared ar elifiant o'r cyfleuster(au) trin arfaethedig neu'r tanc(iau) carthion sy'n gwasanaethu'r datblygiad newydd.

h) **Nodweddion amsugno anaddas:** Unrhyw ganlyniadau a geir ar ôl profion trylifo sy'n cael eu cynnal yn unol â BS 6297 neu â safon a fydd yn ei disodli yn y dyfodol (os oes modd, dylid cynnal y profion dan amodau gaeafol pan fo'r priddoedd yn llawn dŵr), ac sy'n dangos bod cyflwr y pridd yn lleol yn atal unrhyw elifiant carthion rhag cael ei waredu'n effeithiol o'r cyfleuster(au) arfaethedig i drin carthion neu o'r tanc(iau) carthion sy'n gwasanaethu'r datblygiad newydd.

i) **Lefel trwythiad uchel: Unrhyw dystiolaeth sy'n dod o gofnodion am 'lefelau arferol dŵr'** mewn tyllau treialu sy'n dangos bod y lefel trwythiad yn yr ardal leol mor uchel, ar unrhyw adeg o'r flwyddyn, fel y gallai lesteirio neu atal neu effeithio'n andwyol ar y trefniadau arfaethedig i ddraenio dŵr brwnt/waredu elifiant.

j) **Lefelau dŵr daear sy'n codi:** Unrhyw dystiolaeth, megis cofnodion am y lefel trwythiad yn yr ardal leol, sy'n dangos bod y lefelau wedi bod yn codi'n gyson a'u bod yn debygol o ymyrryd â'r system arfaethedig i ddraenio dŵr brwnt/waredu elifiant, neu y gallent achosi difrod i dir neu eiddo arall yn yr ardal, e.e. drwy gyfrannu at dirlithriadau neu ymsuddiant.



- k) **Llifogydd:** Unrhyw dystiolaeth, megis cofnodion sy'n nodi lefelau llifogydd yn y gorffennol a pha mor aml y gwelwyd digwyddiadau o'r fath, ac sy'n dangos bod yr ardal yn debygol o ddioddef llifogydd i'r graddau y byddai'r system garthffosiaeth breifat arfaethedig yn arwain neu'n cyfrannu at broblemau i'r amgylchedd neu amwynder.
- l) **Cynllun cynnal a chadw:** Un o'r amodau sy'n gysylltiedig â thrwyddedau ac esemptiadau o dan y Rheoliadau Trwyddedu Amgylcheddol yw ei bod yn ofynnol cadw cofnodion am gyfnod o 5 mlynedd am waith cynnal a chadw a thynnu slwtsh o'r system trin carthion. Dylai cadw log gwasanaethu, anfonebau contractwyr neu ymrwymo i gytundeb gwasanaethu gyda chontractwr fod yn fodd i fodloni'r gofyniad hwn.

2.7 Os gellir dangos, ar sail yr wybodaeth a'r dystiolaeth sy'n dod i law, ei bod yn debygol, oherwydd un neu fwy o'r ffactorau a nodir ym mharagraff 2.6 uchod, y bydd y systemau carthffosiaeth preifat a/neu waredu carthion a gynigir ar gyfer datblygiad arfaethedig yn arwain at broblem sylweddol i'r amgylchedd, i amwynder neu i iechyd y cyhoedd mewn unrhyw ardal, byddai hynny'n ddigon fel arfer i gyfiawnhau Hyd yn oed os dros dro yn unig y mae ymgeisydd am ddefnyddio systemau trin carthion preifat, gyda'r bwriad o fynd ati'n ddiweddarach i gysylltu system ddraenio'r datblygiad arfaethedig â charthffos gyhoeddus, ni ddylid rhoi caniatâd cynllunio os yw'r camau dros dro a fwriedir yn debygol o achosi unrhyw un o'r problemau uchod. Fodd bynnag, cyn i awdurdod cynllunio benderfynu gwrthod rhoi caniatâd cynllunio, dylai, ym mhob achos, ystyried a oes unrhyw ffordd ymarferol a chynaliadwy, drwy roi amod ar y caniatâd cynllunio, i oresgyn y problemau sy'n gysylltiedig â'r ffactorau ym mharagraff 2.6 uchod a fyddai, fel arall, yn cyfiawnhau gwrthod rhoi caniatâd. Mae cyngor ar amodau i'w weld yng Nghylchlythyr Llywodraeth Cymru 016/2014.

2.8 Mewn egwyddor, os yw carthbwlly yn cael ei adeiladu a'i gynnal a'i gadw'n briodol, ac os yw'n danc cadw nad oes dim yn gollwng ohono, ni ddylai arwain at broblemau i'r amgylchedd, i amwynder nac i iechyd y cyhoedd. Fodd bynnag, nid yw carthbyllau'n ffordd gynaliadwy a hirdymor o fynd i'r afael â charthion. Yn ymarferol, gwyddys bod problemau'n codi wrth i elifiant orlifo ohonynt am nad ydynt yn cael eu cynnal a'u cadw'n briodol, am nad ydynt yn cael eu gwacáu'n rheolaidd, am nad oes mynediad addas i gerbydau fel y bo modd eu gwacáu, neu am nad oes ganddynt ddigon o gapasiti. Gall amodau anaddas, megis rhai o'r rheini a restrir ym mharagraff 2.6 uchod, waethygu'r problemau hyn. Wrth ystyried cynllun lle bwriedir defnyddio carthbyllau, dylai'r awdurdod cynllunio fabwysiadu'r un broses, sef ystyried a oes posibilrwydd o broblemau sylweddol fel y rheini a ddisgrifir ym mharagraff 2.6 uchod, ac a ellir goresgyn y problemau hynny drwy roi amodau addas ar y caniatâd cynllunio.

## Cynlluniau Datblygu Lleol

- 2.9 Mae'n bosibl y bydd awdurdodau cynllunio am gynnwys polisiau priodol yn eu cynlluniau datblygu i adlewyrchu a) cynnwys y Cylchlythyr hwn; b) ei wybodaeth a'i brofiad ei hun o'r amgylchiadau a'r amodau mewn rhannau gwahanol o'i ardal; a c) barn cyrff priodol am systemau carthffosiaeth preifat a'u heffaith debygol ar iechyd y cyhoedd, amwynder a'r amgylchedd.

## Rheoli Datblygu

- 2.10 Cyn cyflwyno cais cynllunio, dylai'r ymgeisydd drafod gyda'r awdurdod cynllunio, Cyfoeth Naturiol Cymru a'r ymgymerwr carthffosiaeth y trefniadau arfaethedig ar gyfer cael gwared ar garthion o'r datblygiad. Os oes gan yr awdurdod cynllunio reswm dros gredu y gallai gosod systemau carthffosiaeth nad ydynt yn gysylltiedig â'r brif rwydwaith achosi problemau, dylid tynnu sylw'r ymgeisydd at y problemau hynny. Dylai'r awdurdod sicrhau hefyd fod yr ymgeisydd yn cael gwybod am gynnwys y Cylchlythyr hwn ac am unrhyw wybodaeth arall sydd ar gael yn hwylus ac a allai fod yn berthnasol, er mwyn i'r ymgeisydd fedru rhoi ystyriaeth lawn i ofynion tebygol yr awdurdod o ran dylunio'r agweddau ar y cynllun sy'n gysylltiedig â draenio dŵr brwnt.
- 2.11 Os yw'r awdurdod cynllunio yn cael cais cynllunio sy'n cynnwys system garthffosiaeth ac ynndi danc carthion neu gyfleusterau parod i drin carthion heb i'r cais hwnnw gael ei drafod ag ef ymlaen llaw a heb wybodaeth ddigonol, dylai'r awdurdod roi gwybod i'r ymgeisydd ar unwaith am y gofynion asesu sydd yn y ddogfen hon, ac am unrhyw wybodaeth berthnasol arall. Mae'n bosibl wedyn y bydd yr ymgeisydd am ystyried a yw am fwrw ymlaen â'r cais neu a yw am fynd ati i'w newid.
- 2.12 Os nad yw'r datblygwr yn cyflwyno digon o wybodaeth am y cynigion ar gyfer systemau carthffosiaeth preifat i'r awdurdod cynllunio fedru rhoi ystyriaeth briodol iddynt, byddai'r dewisiadau eraill hyn ar gael i'r awdurdod:
- a) mewn achos lle, ym marn yr awdurdod ei hun, yn seiliedig ar ei brofiad o'r ardal neu ar ei bolisiau ar gyfer yr ardal, nad yw cynnig i ddefnyddio system garthffosiaeth breifat a gwaredu drwy danciau carthion neu gyfleusterau parod yn debygol o gynnig ateb derbyniol o ystyried y ffactorau a nodir ym mharagraff 2.6 uchod, dylid cynghori'r ymgeisydd y byddai'r cais yn debygol o gael ei wrthod hyd yn oed pae bai rhagor o wybodaeth yn cael ei darparu. Dylai hynny fod yn fodd i osgoi rhagor o gostau diangen i'r ymgeisydd. Fodd bynnag, mater i'r ymgeisydd yw penderfynu a yw am dynnu'r cais yn ôl neu fwrw ymlaen ag ef; neu
  - b) mae'n bosibl y bydd yr awdurdod yn gofyn i'r ymgeisydd ddarparu rhagor o wybodaeth, gan gynnwys canlyniadau unrhyw brofion, er mwyn iddo fedru penderfynu a yw'r ffactorau perthnasol y cyfeirir atynt yn y Cylchlythyr hwn yn berthnasol.

- 2.13 Dylai'r penderfyniad ar roi caniatâd cynllunio ai peidio fod yn seiliedig ar asesiad trwyadl o'r effaith y mae'r system a gynigir ar gyfer draenio dŵr brwnt yn debygol o'i chael ar iechyd y cyhoedd, amwynder a'r amgylchedd, gan asesu yn unol â'r ffactorau a nodir ym mharagraff 2.6 uchod. Dylid rhoi ystyriaeth lawn i safbwyntiau Cyfoeth Naturiol Cymru a chyrrff priodol eraill.
- 2.14 Mater i'r awdurdodau cynllunio, yng ngoleuni'r holl amodau ac amgylchiadau perthnasol sy'n gymwys yn eu hardaloedd nhw, yw'r polisïau a'r arferion penodol sydd eu hangen er mwyn sicrhau eu bod yn cydymffurfio â gofynion y Cylchlythyr hwn.

**Neil Hemington**  
Prif Gynllunydd

Prif Weithredwyr  
Cyngorau Sir a Chyngorau Bwrdeistref Sirol yng Nghymru  
Swyddog y Parc Cenedlaethol:  
Awdurdodau Parciau Cenedlaethol yng Nghymru